

PRIFYSGOL BANGOR
ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Dylid cynnwys Aseiad Effaith Cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol¹ er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

GRWPIAU CYDRADDOLDEB:

Oedran	Anabledd	Ailddynodi gender	Beichiogrwydd a mamolaeth	Iaith Gymraeg
Hil	Crefydd a chred	Rhyw	Cyfeiriadedd rhywiol	Math o Gontract
Priodas a phartneriaeth sifil				

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Enw neu deitl y polisi: -

Cod Ymarfer 08: Cod Ymarfer ar gyfer Cymeradwyo, Monitro ac Adolygu Rhaglenni

¹ Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

Gwybodaeth am y polisi:	
Beth yw diben y polisi?	Mae'r cod hwn yn disgrifio'r gweithdrefnau i gynllunio, adolygu a monitro rhaglenni. Mae hefyd yn cynnwys cymeradwyo modiwlau.
Pwy sy'n gyfrifol am y polisi?	Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu.
Beth yw cysylltiad y polisi â blaenoriaethau strategol y brifysgol?	Ein cenhadaeth: 'cydnabyddir ... am ei phortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil'. Ein gwerthoedd: 'ehangder ein haddysgu a'n hymchwil'. Ein blaenoriaeth strategol 1: 'addysg ragorol'.
Pa grwpiau sy'n rhanddeiliaid yn y polisi?	Myfyrwyr Staff
A gaiff y polisi ei ddefnyddio yn yr un modd ym mhob maes yn y brifysgol?	Caiff
Nodwch y grwpiau y mae'r polisi'n berthnasol iddynt.	Myfyrwyr Staff

A roddwyd ystyriaeth i'r materion canlynol? (un o ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus)	
A allai unrhyw elfennau o'r polisi fod yn wahaniaethol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol?	Na allai.
A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo amrywiaeth a chyfle cyfartal?	Amh
A ellid defnyddio'r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl?	Amh

Monitro	
Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael i gyfrannu at y polisi?	Adolygiadau o raglenni a modiwlau a gynigir gan yr ysgolion. Hefyd archwiliadau ansawdd mewnol ac adroddiadau gan gynrychiolwyr myfyrwyr.

Ymgynghori	
Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r cod hwn. Hefyd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu a'r Grŵp Cymeradwyo Rhaglenni.
Sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad?	
Sut mae ymgynghori wedi cyfrannu at ddatblygu'r polisi?	

Gweithredu	
Sut y gweithredir y polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd sy'n gyfrifol am gymeradwyo a diwygio'r cod hwn. Mae'r brifysgol yn annog dulliau arloesol ac ymatebol o gynllunio cyrsiau, a phob blwyddyn, rhaid anfon rhestr o raglenni newydd a rhaglenni wedi eu hailddilysu i'r senedd er gwybodaeth.
Pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r polisi?	Y Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Dilysu sy'n gyfrifol am reoli'r cod.

Monitro	
Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd ei nod?	Rhaid cynnal archwiliadau ansawdd mewnol mewn cylch 6 blynedd.
Pwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r polisi?	Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd.
Sut caiff y polisi ei fonitro er mwyn sicrhau na wnaiff roi grwpiau penodol dan anfantais?	Caiff unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi eu harchwilio a rhaid gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.
Pryd caiff y polisi ei adolygu i ganfod a yw'n cyrraedd ei nod a'i amcanion?	Mae'r cod ymarfer hwn ar gylch adolygu 3 blynedd, ond caiff ei phrofi bob tro y caiff ei defnyddio.

Goblygiadau o ran adnoddau	
Hyfforddiant – a oes unrhyw ofynion hyfforddi'n gysylltiedig â datblygu, gweithredu neu fonitro'r polisi hwn?	Amh
Beth yw'r goblygiadau eraill o ran adnoddau (gan gynnwys amser a baich gwaith) o weithredu'r polisi hwn?	Mae archwiliadau a phrosesau mewnol i gymeradwyo, dilysu ac ailddilysu modiwlau a chysiau yn cymryd cryn amser.

ARGYMHELLION A DYDDIAD ADOLYGU	
3 blynedd	
ASESIAD EFFAITH – LLOFNOD A DYDDIAD	
Myfanwy Davies	18 Awst 2020